CO20028 - Treganna: Llwybrau Diogel yn y Gymuned: Heol Lansdowne - Tawelu Traffig

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i breswylwyr am gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Heol Lansdowne o'r gyffordd â Heol Ddwyreiniol y Bont-faen hyd at y gyffordd â Grosvenor Street. Mae pryderon wedi eu mynegi ynghylch diogelwch cerddwyr a chyflymder y traffig yn y lleoliad hwn. Mewn ymateb i hyn, mae swyddogion y Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau i wneud gwelliannau a fydd yn helpu i greu amgylchedd priffordd fwy diogel.

Y prif broblemau diogelwch ar y ffordd a nodwyd oedd cyflymder cerbydau ac uwchraddio'r cyfleusterau croesi i gerddwyr ger Norfolk Street

Mae'r cynllun hwn felly wedi'i ddatblygu i wneud y canlynol:

- Lleihau cyflymder cerbydau drwy osod byrddau cyflymder.
- Uwchraddio'r groesfan bresennol i gerddwyr i groesfan pâl fwrdd arafu.
- Darparu bolardiau ger 211-205 i atal parcio ar droedffordd.

Bydd y mesurau'n sicrhau amgylchedd fwy diogel i gerddwyr a beicwyr , yn enwedig i ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed a bydd yn gwella hygyrchedd i'r ardal gymunedol, siopau lleol a gwasanaethau bysiau, ac i ysgolion yn y cyffiniau megis Ysgol Gynradd Lansdowne, Ysgol Treganna, Ysgol Pwll Coch ac Ysgol Uwchradd Fitzalan.

Rhoddwyd cyllid ar gyfer y gwelliannau hyn i'r briffordd fel rhan o grant (LlDG) Llwybrau Diogel yn y Gymuned Llywodraeth Cymru.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall efallai fod gennych awgrymiadau am welliannau eraill i Heol Lansdowne. O ganlyniad i gyfyngiadau ariannol efallai na allwn newid y cynlluniau hyn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a ddaw i law er mwyn eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni erbyn 12/12/20 i ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch i Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig Mae’r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy’n gorfodi gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau. Mae’r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogam, pyrth, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Cyrbau Is Dyma'r ffurf symlaf o groesfan i gerddwyr lle mae'r lefel rhwng y droedffordd a'r ffordd yn cael ei chadw i'r lleiafswm er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadeiriau olwyn, cadeiriau gwthio a rhai eraill sydd â nam ar eu symudedd. Mae ganddynt balmentydd botymog i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrbyn yn gwahanu'r droedffordd rhag y ffordd.

Bwrdd Arafu. Dyma amrywiad ar y twmpath cyflymder lle bo maint yr ardal ddyrchafedig (bwrdd) â lled o fwy na dwy fetr. Mae hyn yn achosi llai o anghysur i deithwyr ar fysus gan fod y codi a’r gostwng wedi’u gwahanu gan yr adran wastad. Weithiau defnyddir y rhain ar y cyd â chroesfannau i gerddwyr i leihau cyflymderau ac i wneud y groesfan yn fwy amlwg i yrwyr.

Cyrbau Is Dyma'r ffurf symlaf o groesfan i gerddwyr lle mae'r lefel rhwng y droedffordd a'r ffordd yn cael ei chadw i'r lleiafswm er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadeiriau olwyn, cadeiriau gwthio a rhai eraill sydd â nam ar eu symudedd. Mae ganddynt balmentydd botymog i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrbyn yn gwahanu'r droedffordd a'r ffordd.

Cyffordd Ddyrchafedig Mae darparu cyffordd ddyrchafedig yn debyg i dwmpath yn y ffordd. Codir y gyffordd gyfan i greu llwyfan, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae cyffordd ddyrchafedig yn cynnig cyffordd fwy diogel trwy arafu pob cerbyd sy'n dod at y gyffordd, a thrwy hynny gynnig allanfa fwy diogel o ganghennau'r gyffordd.

Croesfan Pâl Fwrdd Arafu. Dyma lle mae croesfan pâl yn cynnwys bwrdd arafu, neu wedi’i lleoli wrth gyffordd ddyrchafedig, naill ai’n rhan o gyfres ehangach o fesurau arafu traffig neu ar ei phen ei hun.

Bolard. Mae hwn yn bostyn a wnaed o ddeunyddiau amrywiol ac fe'i defnyddir i atal cerbydau rhag cael eu gyrru ar y droedffordd neu'r llain wrth ymyl y ffordd.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 02920873354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn *~~07/11/2020~~ **12/12/2020**







The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 02920873354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by *~~07/11/2020~~ **12/12/2020**